# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Iau, 8 Hydref 2020

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, I.W. Davies, J.A. Davies, P.M. Edwards, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, C. Jones, D. Jones, M.J.A. Lewis, K. Madge, B.D.J. Phillips, G.B. Thomas a D.E. Williams (yn lle J. E. Williams)

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorydd K. Broom mewn perthynas â chais cynllunio S/40172

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
L. Quelch, Y Pennaeth Cynllunio
J. Edwards, Rheolwr Datblygu & Treftadaeth Adeiledig
G. Noakes, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y Dwyrain)
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y De)
A. Francis, Swyddog Rheoli Datblygu
E. Jones, Swyddog Rheoli Datblygu
R. Davies, Swyddog Rheoli Datblygu [De]
G. Glenister, Swyddog Rheoli Datblygu
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd [Cyswllt Cynllunio]
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
J. Corner, Swyddog Technegol
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhif Gyfarfod. - 10.00 yb - 12.35 yp**

**[Sylwer: gohiriwyd y cyfarfod gan y Pwyllgor am 11.45pm i ddatrys problemau technegol ac ailymgynullwyd am 12.00pm.]**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Cafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd H.I. Jones a J.E Williams.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| J.A. Davies | 3 – E/40554 - Addasiadau ac estyniad unllawr yn Fferm Cwmifor, Cwmifor, Llandeilo, SA19 7AW | Cyflwynwyd y cais gan ei fab a'i ferch yng nghyfraith. |
| D. Jones | 4. – DNS/00427– DNS (Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol) – Parc Solar Arfaethedig (DNS/3227364) | Cadeiriodd D. Jones cyfarfod Cyngor Cymuned Llan-non pan drafodwyd hyn ond ni |

| | | |
|---|---|---|
| | gan gynnwys llwybr cebl arfaethedig ar dir i'r dwyrain o'r A48 a thir i'r de-orllewin o Dŷ-croes, gerllaw Fferm Solar Clawdd Ddu, Tŷ-croes, Rhydaman, SA18 3RE | chymerodd unrhyw ran yn y drafodaeth. |

## 3. RHANBARTH Y DWYRAIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**3.1 PENDERFYNWYD caniatáu Cais Cynllunio E/40464 yn amodol ar yr amodau yn adroddiad y Pennaeth Cynllunio ac amod ychwanegol sef bod y coed sy'n ffinio â'r eiddo yn cael eu diogelu rhag cael eu cwympo.**

| | |
|---|---|
| **E/40464** | **Preswylfa newydd yn 'Paddock Plot' gerllaw 100 Heol y Cyrnol, Betws, Rhydaman, SA18 2HP** |

**3.2 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn unol â'r amodau a nodwyd yn Adroddiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **E/40554** | **Addasiadau ac estyniad unllawr yn Fferm Cwmifor, Cwmifor, Llandeilo, SA19 7AW**<br><br>[Noder - Gan i'r Cynghorydd J.A. Davies ddatgan buddiant yn y cais hwn yn gynharach, gadawodd y cyfarfod cyn i'r cais gael ei ystyried a chyn y gwnaed penderfyniad yn ei gylch] |

## 4. RHANBARTH Y DE - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

**4.1 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau yn Adroddiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **S/40172** | **Cais ôl-weithredol am gadw un tŷ annedd ar Lain 4, Cae Linda, Trimsaran, Cydweli, SA17 4AQ**<br><br>Cyflwynwyd sylwadau gan yr Aelod Lleol a oedd yn ailbwysleisio'r pwyntiau y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio, a oedd yn cynnwys pryderon ynghylch y canlynol:<br>• datblygiad amlwg/gormesol wrth ystyried yr eiddo cyfagos<br>• colli preifatrwydd<br>• uchder y llwybr / ardal y patio<br><br>Ymatebodd y Swyddog Rheoli Datblygu i'r materion a godwyd. |
| **PL/00194** | **Bwriad i ddymchwel ac yna ailadeiladu adeilad tri llawr i** |

| | |
|---|---|
| | **ddarparu defnydd masnachol ar y llawr gwaelod a defnydd preswyl ar y lloriau uchaf gyda pharcio cysylltiedig.** |

**4.2 Cais cynllunio DNS/00427– DNS (Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol) – Parc Solar Arfaethedig (DNS/3227364) gan gynnwys llwybr cebl arfaethedig ar dir i'r dwyrain o'r A48 a thir i'r de-orllewin o Dŷ-croes, gerllaw Fferm Solar Clawdd Ddu, Tŷ-croes, Rhydaman, SA18 3RE**

**[Sylwer: Am 11:45am ac wrth ystyried yr eitem hon, cafodd y Pwyllgor ei ohirio am 15 munud oherwydd materion technegol.]**

Hysbyswyd y Pwyllgor, yn dilyn cyflwyno dau Ddatblygiad Cenedlaethol ei Arwyddocâd (DNS) i Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau ynni adnewyddadwy megis ynni'r haul yn Sir Gaerfyrddin yn Llangennech a ger Tŷ-croes, ei bod yn ofynnol i'r Cyngor, fel ymgynghorydd, greu Adroddiad Effaith Leol (LIR) yn tynnu sylw at effeithiau lleol posibl y byddai angen i Lywodraeth Cymru eu hasesu wrth iddi ystyried y ceisiadau.

Er y byddai'r Adroddiad Effaith Leol yn cael ei gwblhau gan y Pennaeth Cynllunio, yr oedd angen awdurdod dirprwyedig ar ei gyfer, hysbyswyd y Pwyllgor y gallai wneud ei sylwadau ei hun i Lywodraeth Cymru. Byddai'r sylwadau hynny'n cael eu nodi yng nghofnodion y cyfarfod hwn cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

Nodwyd bod y cais presennol yn ymwneud â safle Tŷ-croes yn unig a bod safle Llangennech wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Cynllunio yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Medi 2020.

Yn sgil hynny, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad a chyflwyniad sleidiau, gan gynnwys lluniau drôn o'r lleoliad y manylir arno yn y cais, cyfeirnod DNS/00427**.**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

**4.2.1 Nodi'r adroddiad gwybodaeth ar gais DNS/00427**

**4.2.2 Bod awdurdod dirprwyedig yn cael ei roi i'r Pennaeth Cynllunio gyflwyno Adroddiad Effaith Leol i Lywodraeth Cymru**

**4.2.3 Bod y Pwyllgor yn cyflwyno'r sylwadau canlynol i Lywodraeth Cymru**

1. **Dylai unrhyw gymeradwyaeth i gais cynllunio DNS / 00427 gynnwys amod ar gyfer darparu cynllun datgomisiynu manwl a fydd yn ymgorffori: -**
   - **Y gofyniad i dalu bond i sicrhau bod digon o arian ar gael i gyflawni'r gwaith datgomisiynu ar ôl 40 mlynedd o ran oes y datblygiad pe bai'r datblygwr yn rhoi'r gorau i fasnachu**
   - **Tynnu/trin/gwaredu'r paneli haul yn ddiogel i atal unrhyw ollyngiadau a halogiad pridd wedi hynny i amddiffyn y tir ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.**
2. **Dylid ystyried y mater o ran talu budd i'r gymuned i'r**

**tair ardal cyngor cymunedol lleol y mae'r datblygiad arfaethedig yn effeithio arnynt."**

## 5. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR GOFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR

### 5.1. 10FED MEDI, 2020

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 10 Medi 2020, gan eu bod yn gywir.**

### 5.2. 22AIN MEDI, 2020

**PENDERFYNWYD llofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 22 Medi 2020, gan eu bod yn gywir.**

| | |
|---|---|
| ________________________ | ____________________ |
| **CADEIRYDD** | **DYDDIAD** |

[SYLWER: *Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.*]